

Beth fydd yn digwydd os caiff cwyn ei gwneud amdanaf?

Gwybodaeth i gofrestreion

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth i gofrestreion sy'n destun ymchwiliad addasrwydd i ymarfer. Mae'n bosibl eich bod wedi cael y canllawiau hyn am ein bod wedi cael cwyn amdanoch. Dylech eu darllen yn ofalus.

Ynglŷn â'r Cyngor Optegol Cyffredinol

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) yn un o 12 o sefydliadau yn y DU sy'n cael eu galw'n rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r sefydliadau hyn yn goruchwyllo'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol drwy reoleiddio gweithwyr proffesiynol unigol.

Fel cofrestrai, byddwch yn ymwybodol mai'r GOC yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd, mae mwy na 29,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, optegwyr dan hyfforddiant a busnesau optegol wedi'u cofrestru â'r GOC.

Caiff pwerau a chyfrifoldebau'r GOC, a'r ffordd rydym yn gweithio, eu llywodraethu gan Ddeddf Optegwyr 1989 (fel y'i diwygiwyd) (y Ddeddf).

Os penderfynir nad yw cofrestrai yn addas i ymarfer, i hyfforddi i fod yn optegydd neu i redeg busnes sydd wedi'i gofrestru â'r GOC, gallwn ei atal rhag gweithio yn y DU, neu gallwn gyfyngu ar y gwaith y caniateir iddo ei wneud.

Beth ydym ni'n ei wneud?

Ein prif amcan, fel y nodir yn y Ddeddf, yw diogelu, hybu a chynnal iechyd a diogelwch aelodau o'r cyhoedd. Efallai y byddwn hefyd yn cael gwybodaeth gan yr heddlu.

Rydym yn diogelu'r cyhoedd drwy wneud y canlynol:

- » gosod safonau ar gyfer addysg optegol, hyfforddiant, perfformiad ac ymddygiad;
- » cymeradwyo'r cymwysterau sy'n arwain at gofrestru;
- » cyhoeddi cofrestr o optegwyr, myfyrwyr a busnesau optegol yn y DU;
- » ymchwilio a gweithredu ar bryderon nad yw cofrestrai yn addas i:
 - ymarfer;
 - hyfforddi i fod yn optegydd; neu
 - redeg busnes sydd wedi'i gofrestru â'r GOC.

Pwy sy'n gallu cwyno?

Gall unrhyw un wneud cwyn am gofrestrai. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd, cyflogwyr a chofrestrion eraill. Efallai y byddwn hefyd yn cael gwybodaeth gan yr heddlu.

Gallwn fwrw ymlaen ag ymchwiliad yn erbyn cofrestrai os daw pryderon ynglŷn â'i addasrwydd i ymarfer, ei addasrwydd i hyfforddi neu ei addasrwydd i gynnal busnes i'n sylw, hyd yn oed os na fydd cwyn wedi'i gwneud, er enghraifft os gwelwn erthygl yn y cyfryngau sy'n ymwneud â chofrestrai.

Pa fathau o gwynion/honiadau y gallwn ddelio â nhw?

Byddwn yn delio ag amrywiaeth o gwynion/honiadau a all olygu bod amhariad (effaith negyddol) ar addasrwydd cofrestrai i ymarfer, i hyfforddi i fod yn optegydd neu i redeg busnes sydd wedi'i gofrestru â'r GOC. Dyma rai enghreifftiau:

- » perfformiad proffesiynol gwael, fel methu â sylwi ar arwyddion o glefyd llygaid;
- » problemau iechyd corfforol neu iechyd meddwl sy'n effeithio ar waith cofrestrai;
- » ymddygiad amhriodol, fel trais neu ymosodiad rhywiol;
- » bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau yn y gwaith;
- » twyll neu anonestrwydd; neu
- » rybuddiad neu euogfarn droseddol.

Beth fydd yn digwydd pan gawn gŵyn/honiad ynglŷn ag addasrwydd cofrestrai i ymarfer?

Os caiff optegydd ei ddisgrifio fel rhywun sy'n 'addas i ymarfer', bydd hynny'n golygu ei fod wedi cyrraedd y safonau iechyd, cymeriad, gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad sy'n angenrheidiol er mwyn iddo allu gwneud ei waith yn ddiogel ac yn effeithiol.

Os cawn gŵyn/honiad neu os daw pryderon i'n sylw am gofrestrai, byddwn yn cymryd camau i ymchwilio i'r mater. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- » casglu rhagor o wybodaeth, gan gynnwys gan y sawl sy'n gwneud y gŵyn/honiad (yr achwynydd);
- » ysgrifennu at y cofrestrai i'w hysbysu ein bod yn ymchwilio i gŵyn/honiad;
- » gofyn i'r cofrestrai am fanylion ei gyflogwr presennol – byddwn yn rhoi gwybod i'r cyflogwr bod y cofrestrai yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd (mae'n ofynnol i ni wneud hyn o dan y Ddeddf);
- » hysbysu'r Adran Iechyd bod cofrestrai yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd (mae'n ofynnol i ni wneud hyn o dan y Ddeddf);
- » casglu tystiolaeth gan bobl ar wahân i'r achwynydd – sy'n gallu cynnwys gofyn am gopiau o gofnodion clinigol cleifion neu ddatganiadau gan dystion allweddol neu, os bydd y mater yn ymwneud â rhybuddiad neu euogfarn droseddol, dystiolaeth a gasglwyd gan yr heddlu neu drawsgriadau'r llys.

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i ni fynnu gwybodaeth neu dystiolaeth gan bobl neu sefydliadau. Mae'r pŵer hwn yn drech na'r Ddeddf Diogelu Data a bydd yn ein helpu pan fyddwn yn gofyn am wybodaeth neu dystiolaeth sy'n ymwneud â chwynion/honiadau.

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i ni ddatgelu gwybodaeth am addasrwydd cofrestrai i ymarfer i unrhyw un os byddwn o'r farn bod hynny er budd y cyhoedd. Weithiau, byddwn yn cael ceisiadau gan gyflogwyr neu'r GIG am wybodaeth am ymchwiliad i addasrwydd cofrestrai i ymarfer sydd wrthi'n mynd rhagddo.

Pan fyddwn yn cael y math hwnnw o gais, byddwn yn gofyn i'r sawl sy'n ei wneud nodi'n ysgrifenedig y rhesymau pam y byddai er budd y cyhoedd i ni ddatgelu'r wybodaeth honno iddo. Byddwn yn ystyried pob cais am ddatgelu gwybodaeth fesul achos unigol.

Byddwn yn anfon yr holl wybodaeth y byddwn wedi'i chasglu am y mater at y cofrestrai ac yn rhoi 28 diwrnod iddo wneud sylwadau ysgrifenedig. Caiff unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wneir gan y cofrestrai (ei sylwadau) eu hanfon at yr achwynydd a fydd yn gallu gwneud sylwadau arnynt. Wedyn, caiff unrhyw sylwadau a wneir gan yr achwynydd eu hanfon yn ôl at y cofrestrai.

Byddwn wedyn yn cyflwyno'r holl dystiolaeth sy'n ymwneud â'r gŵyn/honiad, ynghyd â'r holl sylwadau ac unrhyw sylwadau pellach a gawn gan yr achwynydd, i'r Archwilwyr Achos.

Archwilwyr Achos

Pan fydd ein hymchwiliad wedi'i gwblhau, bydd Archwilwyr Achos yn ystyried y wybodaeth y byddwn wedi'i chasglu ynghyd ag unrhyw ymateb gan y cofrestrai. Bydd un Archwiliwr Achos yn llygwr (rhywun nad yw wedi cael hyfforddiant optegol) a bydd un yn optometrydd neu'n optegydd cyflenwi cymwysedig sydd ar gofrestr y GOC. Bydd yr Archwilwyr Achos yn ystyried yr achos ac yn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Gall Archwilwyr Achos wneud y canlynol:

- » peidio â chymryd camau pellach;
- » cynnig cyngor i'r cofrestrai ar ei ymddygiad yn y dyfodol;
- » gofyn am gynnal ymchwiliad pellach;
- » rhoi rhybudd i'r cofrestrai;
- » atgyfeirio'r gŵyn at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer annibynnol, a fydd fel arfer yn cynnal gwrandawriad cyhoeddus i benderfynu pa gamau i'w cymryd;
- » cyfarwyddo y dylid gofyn i'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ystyried ar frys a ddylai'r cofrestrai fod yn destun gorchymyn interim.

Os bydd Archwilwyr Achos yn cytuno y dylai'r cofrestrai gael asesiad perfformiad neu iechyd, rhaid iddynt atgyfeirio eu hargymhelliad at y Pwyllgor Ymchwilio. Os na all Archwilwyr Achos gytuno ar ba gamau i'w cymryd, rhaid iddynt atgyfeirio'r achos at y Pwyllgor Ymchwilio.

Y Pwyllgor Ymchwilio

Mae'r Pwyllgor Ymchwilio yn cynnwys cofrestrion y GOC ac aelodau lleeg. Mae ei weithdrefnau wedi'u nodi yn y Ddeddf.

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Ymchwilio eu cynnal yn breifat, ac ni chaniateir i gofrestreion nac achwynwyr fod yn bresennol. Bydd y Pwyllgor yn ystyried argymhellion gan Archwilwyr Achos y dylai'r cofrestrai gael asesiad perfformiad neu iechyd, gan atgyfeirio achosion at Archwilwyr Achos (ar ôl i'r asesiad gael ei gynnal os bydd hynny'n berthnasol) ar gyfer penderfyniad terfynol ynghylch pa gamau y dylid eu cymryd. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried achosion lle na all yr Archwilwyr Achos gytuno ar ba gamau y dylid eu cymryd a lle y bydd cofrestrion yn gwrthod cael asesiad iechyd neu berfformiad neu'n peidio â chydweithredu ag asesiad o'r fath.

Yn yr achosion hyn, gall y Pwyllgor wneud y canlynol:

- » peidio â chymryd camau pellach;
- » cynnig cyngor i'r cofrestrai ar ei ymddygiad yn y dyfodol;
- » gofyn am gynnal ymchwiliad pellach (megis cynnal asesiad o iechyd neu berfformiad cofrestrai);
- » rhoi rhybudd i'r cofrestrai;
- » atgyfeirio'r gŵyn at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, a fydd fel arfer yn cynnal gwrandawriad cyhoeddus i benderfynu pa gamau i'w cymryd.

Mae rhagor o fanylion am bob un o'r canlyniadau hyn wedi'u nodi yng nghanllawiau'r Pwyllgor Ymchwilio, sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.optical.org/en/Investigating_complaints/fitness-to-practise-guidance/index.cfm.

Ar ôl i'r Archwilwyr Achos neu'r Pwyllgor Ymchwilio ystyried cwyn/honiad yn erbyn cofrestrai, byddwn yn ysgrifennu at y cofrestrai (neu gynrychiolydd y cofrestrai) a'r achwynydd i'w hysbysu o benderfyniad y Pwyllgor ac, os bydd unrhyw gamau pellach, beth fydd y camau hynny.

Atgyfeirio dedfryd o garchar yn awtomatig

Os bydd cofrestrai wedi cael euogfarn droseddol a arweiniodd at dedfryd o garchar (boed ar unwaith neu wedi'i gohirio), gall y Cofrestrydd atgyfeirio'r achos yn uniongyrchol at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Gelwir hyn yn 'atgyfeirio awtomatig' ac fe'i nodir yn adran 4(5) o Reolau Addasrwydd i Ymarfer 2013.

Ni chaiff cwynion/honiadau sy'n perthyn i'r categori hwn eu hystyried gan yr Archwilwyr Achos na'r Pwyllgor Ymchwilio.

Rhagor o wybodaeth am y broses ymchwilio

Mae ein gwefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y broses ymchwilio, gan gynnwys siart lif i esbonio'r camau amrywiol.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau sy'n esbonio:

- » prosesau gwneud penderfyniadau'r Archwilwyr Achos a'r Pwyllgor Ymchwilio;
- » yr amgylchiadau lle y gall yr Archwilwyr Achos neu'r Pwyllgor Ymchwilio roi rhybuddion;
- » y broses asesu perfformiad.

Mae'r dogfennau canllaw hyn ar gael ar ein gwefan hefyd. Gweler

https://optical.org/en/Investigating_complaints/fitness-to-practise-guidance/index.cfm.

Gorchmynion interim

Os bydd Archwiliwr Achos, neu Gofrestrydd y GOC, o'r farn y dylai'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ystyried gwneud gorchmyn interim, bydd yn gallu cyfarwyddo y dylid atgyfeirio'r mater.

Gall gorchmyn interim naill ai atal cofrestrai o'r gofrestr dros dro neu osod amodau ar ei gofrestriad. Daw gorchmynion interim i rym ar unwaith. Cânt eu hadolygu bob chwe mis a byddant fel arfer yn aros mewn grym nes y bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau ac y bydd prif wrandawriad y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer wedi dod i ben.

Dim ond os bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn fodlon ei fod yn angenrheidiol er mwyn diogelu aelodau o'r cyhoedd, ei fod er budd y cyhoedd fel arall, neu ei fod er budd cofrestrai, y caiff gorchmyn interim ei osod ar gofrestrai. Os caiff cwyn/honiad ei atgyfeirio at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer er mwyn iddo ystyried a ddylid gosod gorchmyn interim, caiff gwrandawriad ei drefnu.

Yn y gwrandawriad hwnnw, bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn penderfynu a ddylid gosod gorchmyn interim ai peidio. Mae'r canllawiau y bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn eu defnyddio wrth ystyried ceisiadau am orchmynion interim (neu faterion eraill) ar gael ar ein gwefan. Gweler **www.optical.org/en/Investigating_complaints/fitness-to-practise-guidance/index.cfm**.

Os gwneir cais am orchmynion interim yn erbyn cofrestrai, bydd ein Rheolwr Gwrandawriadau yn anfon hysbysiad o'r dyddiad ac yn esbonio hawl y cofrestrai i fod yn bresennol yn y gwrandawriad a/neu i gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad.

Caiff gwrandawriadau ceisiadau am orchmynion interim eu cynnal yn breifat. Os caiff y cais am orchmynion interim ei gymeradwyo, rhoddir cyhoeddusrwydd i'r manylion wedyn.

Dim ond mewn nifer bach o achosion y caiff gorchmynion interim eu cymeradwyo. Mae hynny'n golygu y bydd cofrestrai fel arfer yn gallu parhau i weithio yn ystod unrhyw ymchwiliad.

Beth fydd yn digwydd yng ngwrandawriad(au) y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer?

Gall y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer benderfynu cynnal gwrandawriad gweithdrefnol os bydd y naill barti neu'r llall yn gofyn am hynny. Fel arall, bydd disgwyl i'r partïon ddilyn y cyfarwyddiadau safonol fel y'u nodir yn y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer.

Os bydd y naill barti neu'r llall yn gwneud cais am wrandawriad gweithdrefnol, bydd y Pwyllgor yn ei ddefnyddio i benderfynu ar yr amserlen ar gyfer amrywiol weithgareddau pwysig y bydd angen eu cynnal cyn y prif wrandawriad. Byddant fel arfer yn cynnwys:

- » rhoi copïau ysgrifenedig o unrhyw dystiolaeth a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn y prif wrandawriad;
- » penderfynu pwy fydd yn cael eu galw fel tystion;
- » pennu'r dyddiad ar gyfer y prif wrandawriad;
- » penderfynu am faint o amser y mae'n debygol o bara.

Os bydd y Pwyllgor Ymchwilio yn atgyfeirio honiad at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, bydd ein Rheolwr Gwrandawriadau yn cysylltu â'r cofrestrai i drefnu dyddiad ar gyfer y gwrandawriad gweithdrefnol.

Mae gan gofrestreion hawl i gael eu cynrychioli mewn unrhyw wrandawriad gan gyfreithiwr neu gynrychiolydd arall. Bydd rhai cofrestreion yn dewis cynrychioli eu hunain.

Nid oes rhaid i gofrestreion fod yn bresennol yng ngwrandawriad gweithdrefnol na phrif wrandawriad y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Fodd bynnag, yn gyffredinol, gwneud hynny fydd er eu lles pennaf. Mae'n debygol y caiff gwrandawriadau eu cynnal hyd yn oed os na fydd y cofrestrai na neb i'w gynrychioli yn bresennol.

Os bydd cofrestrai'n dymuno i wrandawriad gweithdrefnol neu brif wrandawriad gael ei ohirio o'r dyddiad a bennwyd mewn gwrandawriad blaenorol (gelwir hyn yn ohiriad) bydd angen iddo esbonio'n ysgrifenedig pam mae'n credu bod hyn yn angenrheidiol. Bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn ystyried y cais am ohiriad ac ni fydd o reidrwydd yn ei ganiatáu os mai'r unig reswm yw oherwydd y byddai'n fwy cyfleus i'r cofrestrai (neu i'w gyfreithiwr neu gynrychiolydd arall) pe bai'r prif wrandawriad yn cael ei gynnal ar ddyddiad gwahanol.

Ble y caiff gwrandawriadau eu cynnal?

Caiff y rhan fwyaf o wrandawriadau eu cynnal yn ein swyddfa yn 10 Old Bailey, Llundain, EC4M 7NG, neu'n agos at y lleoliad hwnnw. Mae gwybodaeth am sut i gyrraedd ein swyddfa ar gael ar ein gwefan. Mae'r swyddfa yn agos at Eglwys Gadeiriol St Paul a gorsaf reilffordd City Thameslink. Y gorsaf oedd tanddaearol agosaf yw St Paul's a Blackfriars.

Mae manylion yr holl wrandawriadau sydd i ddod, a'u lleoliadau, i'w gweld ar ein gwefan:

https://optical.org/en/Investigating_complaints/Hearings/future_hearings/index.cfm.

Pwy fydd yn y gwrandawriad?

Aelodau'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer

Bydd pum aelod o'r Pwyllgor ar y panel yn y gwrandawriad fel arfer, gan gynnwys dau optegydd a thri lleygwr. Eu rôl fydd clywed y dystiolaeth a gwneud penderfyniadau. Lleygwr fydd Cadeirydd y panel bob amser.

Cynghorydd cyfreithiol

Uwch gyfreithiwr annibynnol fydd y person hwn, a'i rôl fydd rhoi cyngor cyfreithiol annibynnol i'r Pwyllgor a helpu'r Cadeirydd i sicrhau bod y gwrandawriad yn cael ei gynnal yn deg. Ni fydd y cynghorydd cyfreithiol yn chwarae unrhyw ran ym mhenderfyniadau'r Pwyllgor.

Cyfreithiwr y GOC

Cyfreithiwr y GOC fydd yn gyfrifol am gyflwyno'r dystiolaeth a fydd wedi cael ei chasglu am y gŵyn/honiad.

Y cofrestrai/cofrestreion

Gall cwyn gynnwys honiadau yn erbyn un cofrestrai neu fwy nag un. Bydd rhai cofrestreion yn dewis bod yn bresennol yn eu gwrandawriad, a bydd eraill yn dewis peidio â bod yn bresennol.

Os bydd cofrestrai yn bresennol yn y gwrandawriad, mae'n bosibl y bydd yn dewis peidio â dweud dim o gwbl neu'n penderfynu rhoi dystiolaeth i'r Pwyllgor. Mae'n bwysig trafod y penderfyniad hwn gyda chyfreithiwr/cynrychiolydd.

Weithiau, ni fydd cofrestreion yn defnyddio cyfreithwyr i'w cynrychioli yn y gwrandawriad.

Cynllun ystafell y gwrandawriad

Bydd yr ystafell lle y caiff y gwrandawriad ei gynnal wedi'i gosod fel a ganlyn:

Aelod o'r Pwyllgor	Aelod o'r Pwyllgor	Cynghorydd cyfreithiol	Cadeirydd	Aelod o'r Pwyllgor	Aelod o'r Pwyllgor	Tyst	
Cofrestrai		Cyfreithiwr y cofrestrai	Cyfreithiwr y GOC	Trawsgrifydd		Rheolwr Gwrandawriadau	
Oriel gyhoeddus	Oriel gyhoeddus	Oriel gyhoeddus	Oriel gyhoeddus	Oriel gyhoeddus	Oriel gyhoeddus	Oriel gyhoeddus	Oriel gyhoeddus

Os digwydd hynny, cânt gyfle i gyflwyno dystiolaeth i'r Pwyllgor a gofyn cwestiynau i'r tystion.

Cyfreithiwr y cofrestrai

Pan gyfarwyddir cyfreithiwr, bydd y person hwnnw'n cyflwyno achos y cofrestrai i'r Pwyllgor. Bydd hefyd yn gofyn cwestiynau i'r tystion ar ran y cofrestrai.

Y trawsgrifydd

Byddwn yn reffnu i drawsgrifydd wneud nodiadau yn y gwrandawriad er mwyn cadw cofnod llawn o'r hyn a gaiff ei ddweud. Os caiff unrhyw beth cyfrinachol ei drafod yn y gwrandawriad (er enghraifft cyflyrau iechyd), ni chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y trawsgrifiad cyhoeddus.

Y Rheolwr Gwrandawriadau

Bydd y Rheolwr Gwrandawriadau yn bresennol ym mhob gwrandawriad er mwyn rhoi cymorth gweinyddol i'r Pwyllgor. Hefyd, dyma'r person a fydd yn gyfrifol am drefnu dyddiadau gwrandawriadau. Ni fydd y Rheolwr Gwrandawriadau yn rhan o broses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor.

Tystion

Gall cyfreithiwr y GOC neu'r cofrestrai ofyn i dyst roi dystiolaeth mewn gwrandawriad.

Sylwedyddion

Caiff y rhan fwyaf o wrandawriadau eu cynnal yn gyhoeddus, sy'n golygu y gall aelodau o'r wasg neu'r cyhoedd fod yn bresennol.

Beth fydd yn digwydd ym mhrif wrandawriad y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer?

Mae'r canllawiau y bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn eu defnyddio ar gael ar ein gwefan yn

www.optical.org/en/about_us/policies_procedures_and_protocols/index.cfm.

Maent yn esbonio y bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, yn y prif wrandawriad ar ôl i ni a'r cofrestrai gyflwyno dystiolaeth am y ffeithiau yr honnir eu bod wedi digwydd, yn gwneud nifer o benderfyniadau:

- » a yw'r ffeithiau honedig wedi cael eu profi;
- » os yw'r ffeithiau wedi cael eu profi, a yw gweithredoedd y cofrestrai yn gyfystyr â chamymddwyn neu berfformiad proffesiynol diffygiol neu unrhyw un o'r rhesymau eraill a nodir yn y Ddeddf dros ddweud y gall fod amhariad ar addasrwydd y cofrestrai i ymarfer (gan gynnwys iechyd corfforol neu iechyd meddwl andwyol neu fodolaeth rhybuddiad neu euogfarn droseddol);
- » a oes amhariad ar 'addasrwydd' y cofrestrai ar hyn o bryd;
- » pa gosb y dyldid ei rhoi i'r cofrestrai (os o gwbl).

Proses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer

Bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn gofyn i bawb heblaw'r cynghorydd cyfreithiol adael ystafell y gwrandawriad pan fydd yn barod i ddechrau'r broses o wneud penderfyniad. Mae proses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor wedi'i rhannu'n sawl cam, felly mae'n bosibl y bydd yn gofyn i bawb adael yr ystafell sawl gwaith cyn diwedd y gwrandawriad.

Pa gamau y gall y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer eu cymryd ar ddiwedd y gwrandawriad?

Os bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer sy'n gwrandaw'r achos yn penderfynu bod amhariad ar addasrwydd y cofrestrai i ymarfer, gall wneud unrhyw un o'r canlynol:

- » tynnu'r cofrestrai oddi ar y gofrestr – caiff hyn weithiau ei alw'n 'ddileu' neu'n 'daro oddi ar y rhôl'. Caiff enw'r cofrestrai ei dynnu oddi ar y gofrestr, sy'n golygu na fydd yn gallu gweithio fel optegydd, hyfforddi i fod yn optegydd na rhedeg busnes sydd wedi'i gofrestru â'r GOC yn gyfreithlon yn y DU. Os bydd am i'w enw gael ei roi yn ôl ar y gofrestr yn y dyfodol, ceir proses ar wahân (a elwir yn broses adfer) y bydd yn rhaid iddo fynd drwyddi sy'n cynnwys ystyried y rheswm dros ei dynnu oddi ar y gofrestr;
- » atal y cofrestrai o'r gofrestr dros dro – caiff enw'r cofrestrai ei dynnu oddi ar y gofrestr;
- » cofrestru amodol – bydd y cofrestrai yn cael aros ar y gofrestr a pharhau i weithio cyn belled â'i fod yn cydymffurfio ag amodau penodol, fel cael hyfforddiant ychwanegol neu gael ei oruchwylio yn y gwaith;
- » cosb ariannol – bydd yn rhaid i'r cofrestrai dalu dirwy o hyd at uchafswm o £50,000. Gellir rhoi cosb ariannol i'r cofrestrai yn ogystal â'i dynnu oddi ar y gofrestr, ei atal dros dro neu osod amodau ar ei gofrestriad.

Os bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn penderfynu nad oes amhariad ar addasrwydd y cofrestrai i ymarfer, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dal i roi rhybudd am ei ymddygiad neu ei berfformiad yn y dyfodol.

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

Sefydliad sy'n hyrwyddo arferion gorau a chysondeb ymhlith cyrff rheoleiddio gofal iechyd ledled y DU yw'r Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn adolygu penderfyniadau holl Bwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer ac Ymddygiad Proffesiynol y rheoleiddwyr gofal iechyd. Os bydd yr Awdurdod yn credu bod penderfyniad penodol yn rhy drugarog, gall ofyn i'r Uchel Lys adolygu'r penderfyniad.

Apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer

Dim ond ar ôl i'r cofrestrai gael cyfle i apelio i'r Uchel Lys y bydd penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn dod i rym. Bydd ganddo 28 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad i gyflwyno apêl yn yr Uchel Lys.

Mewn achosion lle y bydd y Pwyllgor wedi penderfynu tynnu cofrestrai oddi ar y gofrestr neu wedi penderfynu y dylid atal cofrestrai o'r gofrestr dros dro, gall fynd ati wedyn i ystyried a oes angen gorchymyn i'r cofrestrai gael ei atal o'r gofrestr ar unwaith. Mae'n bosibl y bydd hyn yn angenrheidiol os bydd y Pwyllgor o'r farn y dylid atal cofrestrai rhag ymarfer cyn i'r cyfnod apelio o 28 diwrnod (fel y cyfeirir ato uchod) ddod i ben.

Ar ôl i'r gwrandawriad ddod i ben, caiff penderfyniad y Pwyllgor a thrawsgrifiad o unrhyw elfen gyhoeddus o'r gwrandawriad eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Adolygu'r amodau a osodir gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer

Os bydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn penderfynu ar ddiwedd y gwrandawriad y dylid gosod amodau ar gofrestriad cofrestrai, caiff ei gydymffurfiaeth â'r amodau hynny ei hadolygu'n nes ymlaen mewn gwrandawriad adolygu. Fel arfer, bydd y Pwyllgor yn pennu am faint o amser y dylai'r amodau fod mewn grym a bydd gwrandawriad adolygu yn cael ei gynnal tua 4-6 wythnos cyn i'r gorchymyn amodau ddod i ben er mwyn penderfynu p'un a oes amhariad ar addasrwydd y cofrestrai i ymarfer o hyd ai peidio.

Aros ar ein cofrestr

Ni chaniateir i gofrestrai newid statws ei gofrestriad â'r GOC nes y bydd y Pwyllgor Ymchwilio neu'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer wedi gorffen ystyried y mater. Mae hyn yn golygu na fydd y cofrestrai yn gallu tynnu ei enw oddi ar y gofrestr yn wirfoddol nes y bydd pwyllgor wedi gwneud penderfyniad terfynol ynghylch y gŵyn/honiad. Mae hefyd yn golygu na fydd cofrestrion dan hyfforddiant yn gallu ymuno â'r gofrestr i aelodau cwbl gymwysedig nes y bydd yr ymchwiliad wedi dod i ben.

Canllawiau eraill a all fod yn ddefnyddiol

Yn y canllawiau hyn, rydym wedi cyfeirio at wybodaeth arall sydd ar gael ar ein gwefan.

Mae gennym hefyd rywfaint o ganllawiau i dystion sy'n rhoi tystiolaeth mewn gwrandawiaidau Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Mae'n bosibl y bydd rhannau o'r canllawiau hyn yn ddefnyddiol i chi, ac maent i'w gweld ar ein gwefan yn

www.optical.org/en/Investigating_complaints/witnesses.cfm.

Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

Os gwneir cwyn/honiad amdano chi, gallwch ddisgwyl i ni eich trin yn deg a rhoi gwybodaeth am ein proses ymchwilio.

Rydym yn ceisio gwneud yn siŵr bod ein prosesau mor agored a chlir â phosibl ac rydym yn gobeithio y bydd y wybodaeth yn y canllawiau hyn yn eich helpu drwy'r broses ymchwilio.

Cysylltu â ni

Os bydd angen i chi gael rhagor o wybodaeth neu fanylion am y ffordd rydym yn ymchwilio i gwynion/honiadau, gweler y wybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan yn www.optical.org. Os na fydd yn ateb eich cwestiynau am y broses ymchwilio, cysylltwch â'r adran Gyfreithiol ac Addasrwydd i Ymarfer ar **020 7580 3989** (opsiwn 2).

Os cewch wybod ein bod yn ymchwilio i gwyn/honiad amdano chi, efallai y byddwch am gysylltu â'ch corff proffesiynol neu gyfreithiwr annibynnol ynglŷn â'r broses yn gynnar. Efallai yr hoffech hefyd holi Cyngor ar Bopeth am gymorth.

Sylwer na allwn roi cyngor ynghylch beth i'w gynnwys mewn unrhyw sylwadau ysgrifenedig y byddwch chi'n eu gwneud am gwyn/honiad sydd wedi cael ei wneud yn eich erbyn, nac ynghylch sut y dylech gynrychioli eich hun.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am broses gwrandawiaidau'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, cysylltwch â'n Rheolwr Gwrandawiaidau ar **020 7307 3453**.

